Canllaw Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol

Cynnwys

Optimeiddio eich profiad o MapDataCymru 2

Gweld y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ar MapDataCymru 3

Map Rhwydwaith Teithio Llesol: tudalen catalog 3

Tudalen catalog: rhagolwg map 3

Map Rhwydwaith Teithio Llesol: syllwr mapiau 5

Syllwr mapiau: tabl cynnwys 7

Syllwr mapiau: cynfas map 10

Atodiad A 12

Atodiad B 14

Optimeiddio eich profiad o MapDataCymru

I gael y profiad defnyddiwr gorau, dylech ddefnyddio cyfrifiadur, gliniadur neu dabled gydag un o'r porwyr rhyngrwyd canlynol:

- Microsoft Edge
- Google Chrome
- Apple Safari (ar gael ar gynhyrchion Apple yn unig) – nid yw Safari yn caniatáu gweld y map sgrin lawn

Mae defnyddwyr yn cael eu hatgoffa i gadw systemau gweithredu, porwyr a chymwysiadau yn gyfredol bob amser.

Gallwch ehangu cynfas y map drwy ddefnyddio gosodiadau chwyddo eich porwr.

Dylech fod yn ymwybodol bod MapDataCymru yn defnyddio PDF fel ei fformat allbwn ar gyfer argraffu. Bydd y gosodiadau lleol ar eich dyfais yn penderfynu sut mae PDFs yn cael eu trin.

Gweld y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ar MapDataCymru

Map Rhwydwaith Teithio Llesol: tudalen catalog

Mae'r dudalen catalog ar gyfer y Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn cynnwys rhagolwg map gyda rhywfaint o swyddogaethau cyfyngedig, yn ogystal â:

- crynodeb o'r map – mae hyn yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol am y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol
- dolenni i'r metadata – dyma'r data sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r data gofodol
- dolenni i'r haenau Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ar wahân – dyma'r gwahanol setiau data sy'n creu'r map

Tudalen catalog: rhagolwg map

Mae'r rhagolwg map yn darparu trosolwg o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.



I chwyddo i mewn ac allan o'r map:

- gallwch ddefnyddio'r botymau + a – i chwyddo i mewn ac allan:

- gallwch hefyd ddwbl-glicio ar y map i chwyddo i mewn ar y pwynt hwnnw
- ar fwrdd gwaith, gallwch wasgu bysell 'shift' gan glicio a llusgo ar ardal o'r map, i chwyddo i mewn ar yr ardal honno
- ar ddyfais symudol, gallwch binsio-i-chwyddo ar ardal benodol o'r map

I newid y map sylfaenol:

1. Cliciwch ar y crynolun o'r map sydd ar y map:

2. Defnyddiwch y saethau i newid y map sylfaenol a ddewiswyd (gweler Atodiad B am restr lawn o opsiynau map sylfaenol posibl)
3. Dewiswch y map sylfaenol rydych chi'n ei ffafrio (Mapio Graddlwyd yw'r map sylfaenol a argymhellir ar gyfer edrych ar y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol)

I weld y map llawn o'r dudalen catalog cliciwch ar y botwm Dangos yn y syllwr mapiau:



Bydd hyn yn agor y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol mewn tab ar wahân.

Map Rhwydwaith Teithio Llesol: Syllwr mapiau

O'r syllwr mapiau gallwch gael mynediad at yr haenau ar wahân sy'n creu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, yn ogystal â chael mynediad at swyddogaethau ychwanegol, megis argraffu, mesur a rhannu.



Er mwyn llywio yn ôl i'r dudalen catalog ar gyfer y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, dilynwch y trywydd ar gyfer y dudalen:

I gael y profiad gorau o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol gallwch droi at ddefnyddio'r sgrin lawn. I wneud hynny, cliciwch ar y botwm Sgrin Lawn:

I adael y sgrin lawn, cliciwch unwaith eto ar y botwm Sgrin Lawn neu, os ydych yn defnyddio bwrdd gwaith, pwyswch y fysell 'Escape'.

I chwilio am leoliad yn ôl cyfeiriad, cod post, enw awdurdod lleol neu ID ffordd:

1. Rhowch enw'r lleoliad yn y blwch chwilio:

2. Cliciwch ar y lleoliad o'r rhestr o ganlyniadau a awgrymir:



Bydd hyn wedyn yn mynd â chi i'r gyrchfan yr ydych yn chwilio amdani.

Syllwr mapiau: tabl cynnwys

O’r tabl cynnwys, gallwch gael mynediad at yr haenau ar wahân sy’n creu’r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.



Wrth agor y tabl cynnwys, fe welwch fod haenau'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wedi'u rhannu'n 4 ffolder ar wahân. I agor ffolder, cliciwch ar eicon y ffolder:

Bydd hyn yn datgelu'r haenau sy'n creu'r grŵp hwnnw:



I gau ffolder agored, cliciwch unwaith yn rhagor ar eicon y ffolder.

Wrth agor ffolder o'r tabl cynnwys, byddwch yn gallu ehangu haen unigol i ddatgelu ei allwedd. Gallwch wneud hyn drwy glicio ar yr eicon ehangu wrth ochr enw'r haen:

Bydd hyn wedyn yn dangos yr allwedd ar gyfer yr haen honno o dan enw'r haen:



I guddio allwedd haen, cliciwch eto ar yr eicon ehangu:

Gallwch doglo pa haenau, neu grŵp o haenau, i'w gweld ar y map. I guddio haen o'r map cliciwch unwaith ar y botwm sy'n toglo'r hyn rydych yn ei weld:

I ddatgelu haen gudd ar y map cliciwch unwaith ar y botwm sy'n toglo'r hyn rydych yn ei weld:

I newid tywyllni haen ar y map, cliciwch a llusgwch y llithrydd tywyllni sydd o dan enw'r haen.

Syllwr mapiau: cynfas map

Gallwch wneud ymholiad ynglŷn ag unrhyw haenau sydd i'w gweld ar y map drwy glicio ar nodwedd o'r haen honno. Bydd hyn wedyn yn agor yr wybodaeth sydd ar gael ar gyfer y nodwedd honno. Er enghraifft, i gael gwybod mwy am nodwedd benodol, megis llwybr cerdded presennol (gweler Atodiad A am restr gynhwysfawr o haenau a nodweddion):

1. Dod o hyd i nodwedd ar y map:

2. Chwith-gliciwch ar y nodwedd

Bydd hyn wedyn yn agor y panel gwybodaeth ar gyfer y nodwedd, gan arddangos priodoleddau a ddewiswyd ar gyfer y nodwedd a ddewiswyd:



Weithiau, gallwch glicio ar bwynt ar y map sy'n cynnwys mwy nag un nodwedd. Yn yr achos hwnnw, gallwch wneud yr isod:

1. Dilynwch gamau 1-2 uchod.
2. Ar y panel gwybodaeth nodwedd, cliciwch ar gwymplen yr haen:



3. Dewiswch yr haen yr ydych am weld gwybodaeth ar ei chyfer.

Bydd hyn wedyn yn diweddaru'r panel i arddangos gwybodaeth ar gyfer nodwedd o'r haen a ddewiswyd.

Atodiad A

Enw'r haen:	Mathau o nodweddion:
Statws map	Amherthnasol
Llwybrau cerdded presennol	Cerdded
Llwybrau beicio presennol	Beicio
Llwybrau cerdded a beicio presennol	Cerdded a beicio
Llwybrau cerdded y dyfodol	Cerdded
Llwybrau beicio'r dyfodol	Beicio
Llwybrau cerdded a beicio'r dyfodol	Cerdded a beicio
Cyfyngiadau	Ffrâm-A
	Barrau
	Bolard
	Grid Gwartheg
	Rhyd
	Giât
	Dim Cwrb Isel
	Wedi gordyfu
	Bollard Uchel
	Ramp Serth
	Grisiau
	Ramp ar Stepiau
	Camfa/Sticill
	Troad Tyn
	Rhwystr Arall
Croesfannau	Croesfan Pelican
	Croesfan Pegasws
	Croesfan Pâl
	Croesfan Twcan
	Croesfan nad yw o dan Reolaeth
	Croesfan Sebra
	Ynys Groesi
	Croesfan o Fath Arall
Cyfleusterau	Pont (Ar gael)
	Parcio i Feiciau (Ar gael)
	Mynegbost (Ar gael)
	Toiledau (Ar gael)
	Rac Sheffield (Ar gael)
	Camfa/Sticill (Ar gael)
	Storio e-feiciau (Ar gael)
	Seddau Cyhoeddus (Ar gael)
	Gorsaf atgyweirio (Ar gael)

	Llogi beiciau (Ar gael)
	Pont (Yn yr arfaeth)
	Parcio i Feiciau (Yn yr arfaeth)
	Mynegbost (Yn yr arfaeth)
	Toiledau (Yn yr arfaeth)
	Rac Sheffield (Yn yr arfaeth)
	Camfa/Sticill (Yn yr arfaeth)
	Storio e-feiciau (Yn yr arfaeth)
	Seddau Cyhoeddus (Yn yr arfaeth)
	Gorsaf atgyweirio (Yn yr arfaeth)
	Llogi beiciau (Yn yr arfaeth)

Atodiad B

Opsiynau map sylfaenol:
Mapio Diffyg Golwg Lliw
Mapio Cymru OSM
Mapio Graddlwyd
Mapio Rastr
Lluniau o'r Awyr
Cefndir Gwag